DWY O GERDDI NEWYDDION.

I

Hanes Gwraig a phedwar o Blant oedd yn byw yn Sir *Kent*, fel y danfonodd Duw ei ragluniaeth iw phorthi yn ei Newyn ag a achubodd ei bywyd hi ai Phlant drwy ddanfon Cî a Bara yn ei safn.

II

Ymddiddan rhwng y Nain ar Wyres bob yn ail Penill.

TREFRIW

Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1783.

Cwynfan Brydain.

RHOWCH genad immi dracthu,
Neu ganu hyn ôm gene,
Fel mae rhagluniaeth Nefol,
Dedwyddol yn ein dyddiau;
Maê'r Arglwydd mawr yn clywed,
Mae'n gweled pob dirgelion,
Fe ŵyr cyn inni feddwl yn fanwyl ein gôfynion,
Mae Duw trugarog ffydd'on,
Mae'n borthwr y tylodion,
Cofus cyfion union iw:
A'i ofal fydd drachefen,
Dros bob gwaelion truain,
Neu ni bafen ddim yma 'n byw,
Danghofodd mewn ffordd ryfedd,
Ir weddw wael dylededd,
O'i ddwylo'r llynedd dda wellhâd,
Hon oedd ai phedwar Plentyn,
Yn ymyl marw o Newyn,
Ond rhoes Duw 'n fydyn i hon lefhad.

2 Yhmlwy *Stutn* roedd hi 'n tario,
Yn ſir *Kent* er cofio 'r cyfan,
Ai gwr oedd wedi marw,
Heb ond ei henw ei hunan;
At gadw ei phedwar p'entyn,
O dyddiau *Newyn* ceddynt,
Ar plwy heb roi fawr iddi,
Na'i holi am ei belynt,

Ei

Ei henw oedd *Mary Blacca*,
Daeth arni flin gyfyngdra,
O eiſio bara llymdra llwyd,
Ar plant yn gwneud oer leiſie,
Yn wylo'r heilltion ddagre,
Ar nôs a bore o eiſio bwyd,
Er cerdded drwy'r gymdogaeth,
Ni chadd hî ddim cynhaiaeth,
Ran mor ddiluniaeth oedd y Wlâd,
Er eŷmin oedd ei chledi,
Ni yſtyrient mewn toſturi,
I geiſio ei lloni à dim gwelihad.

3 Ag yno'r aeth ei *Newyn*,
Yn drablin ag yn drwblus,
Ar Wraig dechreuodd alw,
Ar dâ enw Duw daionus,
Ar plant yn wylo yn chwerwedd,
Yn ddi duedd fyth heb dewî,
Ow Mam mae'n helynt galed,
Rhowch unwaith damed inni,
Ar hyn doe faſtiff yno,
A darn mawr o fare ganddo,
Dan ei gario fo'n ei gêg,
A rhwng y plant gollyngodd,
Yn ol ar friŷs pryſurodd,
Fo ai gadawodd yno yn dêg,
Y plant a lawenhaſan,
Yn union nhw ai cymmeran,
Ag ai bwyttaſon rwyddlon rî,
Ei mam hefyd a ddymune,
Iddyn ddiolch ar ei glinie,
Ir hyn yraſe iw cattre'r Ci.

4 Ae 'r Wraig ar frys ir ſiambr
Drwy alar mawr dan wylo,
Dan ddweud gwna ben yn fuan,
I mi fy hunan heno,
Dan ofni na chae eilweth,
Ddim lluniaeth fyth iw llenwi,
Ar Plant oedd yn Rheol,
Gogwyddel yn rhoi gweddi,
Ar fyrr doe ddau wr heibio,
Pan oedden nhw'n gweddio,
Nhw droen yno i ymgomio yn gu,
Ir Plant y ddau ofyne,
Pam 'roedden ar ei glinie,
A nhwythe attebe pa fodde a fu,
Mae nhw oedd mewn toſt newyn,
A dyfod Ci i ryw un,
A bare yw galyn yn ei gêg,
A nine roes weddion,
Ar yr hwn a wnaeth ei ddanfon,
Mewn pur foddion tirion tég.

5 Ag yno doe 'r Wraig allan,
Ei hunan yn un hoenus,
Dan ddweudyd faint ei Newyn,
Mewn ſydyn fodd arſwydus,
Gwyr yma wrth ei chlywed,
Wnae yſtyried ei thoſt eirie,
Ag a roes iddi arian, iw chodi o druan droye,
A hynny a fu y llynedd,
Y *Gwanwyn* toſt oedd gaethedd,
Cadd weled mowredd doethedd Duw,
Yn danfon y gwyr Duwiol,

Drwy bur rhagluniaeth Nefol,
I'w dwyn yn fywiol i ail fyw,
Mae Duw mewn ffordd ryfeddol,
Ai galon yn dofturiol,
Yn cadw ei bobl yn y byd,
Bu yn borthwr ir rhai gwana,
Drwy 'r flwyddyn ddrud ddiwaetha,
Ir munud yma yn haela o hyd.

6 Mae Duw yn rhoddi ymwared
Drwy wael greaduriaid oerion,
Mae'r cwbl at ei orchwyl,
Yn anwyl ac yn union,
Run modd ar *Gigfran* atgas,
Yn porthi *Elias* loyw,
A Bara a Chig yn buredd,
Rhag iddo oi fowredd farw,
Rhagluniaeth a fu 'n danfon,
I borthi 'r plant tylodion,
Y Bara a gawfon gan ryw gi,
Ni ddoethe 'r fath beth aflan,
A dim oi ran eu hunan,
Mewn gwedd anian gwyddon ni
Pob rhyw fy yn nwylo 'r Arglwydd,
Yn weinidogion hylwydd,
Ni wyddom beunydd ymhob oes
Ni thwtfie 'r barus *Lewod*,
Ar gorph un *Daniel* hynod,
Yn iach oi ffauod ef o ffoes,

7 Mae'r Tân yn elfen chwerw,
Gwna'n ulw bob anialwch,
Nid eill hwn er maint ei gyfro,
Ddim digio 'r Nefol degwch,
Oni te fe fafe yn lloſgi,
Y Llangcie rheini ar rhinwedd,
Ar ol ei taflu nhw iddo,
Ai gwyro 'n ddi drugaredd,
Rhagluniaeth Duw ſy'n tiwlio,
Morfilod ſy 'n trafaelio,
Yn tynnu nofio tanno y Ne',
Oni te ni ddaethe *Jona*,
Dros byth ir bywyd yma,
Nag i un noddfa i *Ninife*,
Trugarog fu 'r Goiucha,
Ir weddw o Serepta,
Rhoes iddi fara pura pen,
Gogoniant mawl di-ddiwedd,
A fytho yw enw Sanctaidd,
Mewn gore mowredd tyth *Amen*.

ELLIS ROBETS a'i Cant.

Ymddiddan rhwng yr Wyres ai Nain bob yn ail Penill
ar Galon Derwen.

GWRANDO ſy Wyres ar gyffes yn gain
A chofia di gyngor mwyn ordor dy Nain
Gwell itti bryſwaidio gwn heno dy hun,
A pheidio ag ymdagu a ymdynu heſo dyn,
Os dydi a hir drig i neidio yn i frig,
Ceiganol chwyddedig peth perig iw pig.

Mi dynga im corph pais oni met diff dy lais
Daw ryw lwmp a baro wag ſopen ith ſipio,
Dan leicio dy dreio di am drais.
O tewch y Nain yr ſyd naws hefyd ach ſwn,
Na hidiwch mewn buarth er cyfarth or Cwn,
Nid wy ddim yn catu na ymdynnu hefo dyn,
Er 'tolwg cynſidrwch trwch holwch eich hun,
Os aethoch yn hên yn oeredd eich gwên,
Fe fuoch yn rhoden yn globen go glên,
Ni wnaeth undyn mor cam a chwi nag a mam,
Ond yr ych wedi hurtio a gollwn yn ango,
Heb wybod pwy heno paham.
Er 'tolwg ſy wyres y gynes ferch gain,
Na iwſiwch mo'ch craſſer a'ch noethder ich nain
Bu mi'n caru'n oneſt trwy'r ſteneſt yn ffel,
'N rhoi i ddynion attebion rai doethion a del,
Os bu mi ryw dro *Yngwylmabſant* y Rô,
Mae hynny 'n ddirgelion ynghyrrion y nôs,
Ond beth os bum i nid rhaid ddim i chwi
Yn llawen ar droye mewn coedydd a chaue,
'Rol taro wrth lan ſtrindie go ſfri.
Mi wn fy Nain apwyl mae'r garchwyl yn gas,
I ſerch pan haiddio i ſyſo 'r hen ſlas
Ond cofiwch chwi rydid lfier &tid a fu,
Peidiwch am damio nam taro yn eich tŷ,
Nid mater o wawd iw coſbi 'r hen grawd,
Gadewch ſonydd ich wyres ſy'n lodes dyliwd,
Mi fyna gael gwr o dir neu or dwr,
Iw alw yn anwylyd pe coſtie i mi mywyd
Mae 'n fatter dwys embyd yn ſiwr.
Gwrando ſy wyres wyt lodes go lan,
Pedfeit yn ymgroeſi clyw geni yma gan,
A pheidio pipdi ryw lynigi dîês,

Di ei rol ymrwymo mewn eisio heb fod nes,
Mae'n galed o hyd ar frachnad fy ddrud
Gwel faint fy 'n Cardatta ei bara hyd y bŷd,
Os coeli ddyn cas heb ronyn o râs,
Gwn falle 'r ei dithe arh Gyw yn dy haffle
Ath freichie yn gleisie o liw glâs,
Pedfafech yn dweudyd mewn gwynfyd yn gynt
Cyn myned fel yma yn anhardda ar fy hynt
Rwi 'n dechre trwm chwyddo a rhodio'n un rhol
Mae ewinedd dyn hefyd yn ymelyd a mol
Nis gwn i pa bryd y bydd o yn y byd,
Bydd rhywyr yn fydyn ir crynddyn gael Cryd,
Ai Dâd yn â bydd ai olwg trwm fydd,
Pan eis i 'r modd yma mae 'n ddi-gwnt o hona,
A mina fy daera bob dydd.
Rhyfedd fel yr aethon yn geimion i gid,
Ni roiti byth gweryl peth garw ydi brid,
Felly gwneis inne yn y nyddia yn ddi nam,
Wrth garu yn y gwely ag felly dy Fam
Rwy'n meddwl fy hun nad oes odid un,
Heb hynny yn y gwely wrth ymdynnu hefo dyn,
Er bod rhai o rhain yn dengyd yn fain,
Wrth drin y garwriaeth wyn om rhywogaeth
Yn odiaeth iawn eneth iw Nain.
Mae'n rhaid imi chwilio dan udo a gwneud nad
Am *Overseer* creulon tylodion y wlad,
I ddal ar fyrr ddyddie 'r hen gonie'n ddi gel
Ai ddanfon i *Ruthyn* yn fydyn ir Jêl
'Dai ddim yn hŵr lôg i ffast yn hen Rôr,
Fe geiff fy mhriodi y c wytgi brwnt crôg
Ni chowntiwn mor chwain pedfiwn yn terch fain
Nid rhaid i neb rodres rwyn terch i mam gynes.
Mae'r haues rwy'n wyres im Nain, E. R.

BRITISH MUSEUM 13 FEB 80